

Elgan Philip Davies

CEFAIS FY NGENI ym Mhontrhydfendigaid, pentref rhwng Aberystwyth a Thregaron, ac ar ôl byw mewn sawl lle arall yn Nyfed yn ystod y deugain mlynedd diwethaf rydw i wedi teithio bron mewn cylch crwn gan fy mod i, fy ngwraig, Menna, a'r plant – Esyllt, Gwenno, Lois a Gwion – yn byw ar hyn o bryd yn Bow Street, pentref bedair milltir i'r gogledd o Aberystwyth.

Roeddwn i bob amser yn darllen pan oeddwn i'n blentyn. Byddwn yn darllen yn y car wrth fynd ar deithiau pell ac yn darllen trwy'r amser pan fyddwn ar fy ngwyliau gyda Mam-gu a 'Nhad-cu. Ac er y byddai Mam-gu yn dweud wrthyf i am fynd allan i gael awyr iach, darllen ymlaen fyddwn i am fy mod yn mwynhau llyfrau.

Doedd dim digon o lyfrau i'w cael i mi; byddwn yn eu llowcio o fore tan nos, a hyd yn oed wedyn fe fyddwn yn darllen yng ngolau torts o dan y dillad gwely. A phan na fyddai llyfrau newydd i'w cael byddwn yn ysgrifennu fy storïau fy hun.

Roedd yr holl lyfrau a ddarllenais pan oeddwn yn blentyn, yn ogystal â bod yn hwyl ar y pryd, yn fy mharatoi ar gyfer ysgrifennu fy llyfrau fy hun. Roeddwn bob amser yn gwybod y byddwn yn ysgrifennu llyfrau rhywbryd; dim ond mater o amser oedd hi.

Ac mae'n dal yn fater o amser. Dim ond nifer bychan o bobl sy'n gallu gwneud dim byd ond ysgrifennu llyfrau drwy'r dydd, a hyd yn oed wedyn mae cael llonydd yn broblem. Cyflwynodd P. G. Wodehouse, un o fy hoff awduron Saesneg, un o'i lyfrau i'w ferch gan ddweud: 'i Leonora; oni bai am ei chymorth hi byddai'r llyfr hwn wedi ei orffen mewn hanner yr amser'. Un plentyn oedd ganddo ef; mae gen i bedwar!





Llyfrau diweddaraf Elgan Philip Davies

Olion Hen Elyn
1845120043 £5.99

I'r Tir Tywyll
1845120051 £5.99

Cyfres Cefn y Rhwyd:
1902416279 Tacl Hwyr £3.95
1902416287 Ar Ddiwedd y Dydd £3.95
190241618X Cic o'r Smotyn £3.99
1902416236 Cyffro'r Cwpan £3.99
1902416198 Yn y Baw a'r Llaca £3.99

Cyfres Enwogion:
1856443396 Colin Jackson £1.99
1856443418 Ryan Giggs £1.99

Pac o Straeon Rygbi
1859029175 £3.95
Sgorio Bob Tro – Deg o Storïau Pêl-droed Gwych
1859028500 £4.50

Cyfres Clic (nifer o deitlau)

Os hoffech weld holiadur gan Elgan Philip Davies edrychwch ar dudalen Awduron a Darlunwyr ar y wefan www.cllc.org.uk/plantarlein





CYNGOR LLYFRAU CYMRU 2004

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

gwales.com